**CYFARFOD Y CYNGOR** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo, ar ddydd Mercher 19eg Ionawr 2022 gan gychwyn am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield JP MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, J. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, T. Thomas, Mrs M. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 96. YMDDHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball a Miss S. L. Roberts.

## 97. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:
Cyfarfod y Cyngor - 15fed Rhagfyr 2021 - Rhifau Cofnod 79-91

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Pwyllgor Cynllunio - 15fed Rhagfyr 2021 - Rhifau Cofnod 39-42

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

## 98. ADRODDIAD Y MAER

Cyfeiriodd y Maer at y rhestr o ddigwyddiadau (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) o ddigwydiadau dros y mis diwethaf a chyflwyno gworbau i'r buddugol yn y gystadleuaeth Ffenestri Nadolig, a diolchodd i'r holl fusnesau am gymryd rhan, ynghyd â BID y Rhyl a Morrisons ac am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau.

## 99. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) RHAGFYR 2021

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu'r atodlen o daliadau a wnaed ac incwm a dderbyniwyd.

| Rhidf Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm | Disgrifiad o Nwyddau a Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1283 | BT | 246.24 | Gwasanaethau ffôn a band eang |
| 1284 | HSBC | 6.50 | Taliadau banc 17/10 - 16/11 2021 |
| 1167 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Swyddog Arbed Ynni – taliad 3 o 4 2021/22 |
| 1298 | HSBC | 32.00 | Ffi blynyddol cerdyn Cyngor Tref y Rhyl |
| 1140 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | AAC Swyddfeydd Dinesig Ffordd Wellington – taliad 9 o 10 |
| 1168 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau taliad 9 o 12 2021/22 |
| 1286 | Gunsmoke Communications | 1,440.00 | Ffi rheoli Tachwedd 2021 |
| 1287 | CThEM | 2,794.89 | Didyniadau PAYE Tachwedd 2021 |
| 1288 | Cyngor Sir y Fflint (Cfronfa Bensiwn Clwyd) | 4,294.23 | Didynaidau pensiwn Tachwedd 2021 |
| 1289 | Cyflogau Staff | 7,363.17 | Cyflogau staff Rhagfyr 2021 |
| 1297 | BT | 219.22 | Taliadau rheolaidd |
| | **Cyfanswm taliadau** | **20,048.91** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar Gyfrif Rhybudd 31 Diwrnod | 22.81 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.61 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.61 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.61 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.61 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adnau 7 Diwrnod | 0.61 |
| HSBC | Llog ar gyfrif Money Maker | 1.95 |
| Cyngor Sir Ddinbych | Praesept – cyfran 3 o 3 | 184,537.00 |
| Elusen y Maer | Casgliadau Rhagfyr 2021 | 270.40 |
| | **Cyfanswm incwm** | **184,835.21** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 100. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

*Taliadau Atodlen B er cymeradwyaeth (7fed Rhagfyr 2021 – 12fed Ionawr 2022)*

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1301 | Canda Copying Ltd | 273.11 | Taliadau copio |

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1302 | Canda Copying Ltd | 259.32 | Rhentu peiriant copio |
| 1303 | Lawnscience | 40.00 | Triniaeth Hydref Gerddi Coffa |
| 1305 | Swyddfa Bost | 99.00 | Stampiau |
| 1306 | Cyngor Tref Dinbych | 40.00 | 2 x Docyn ar gyfer Digwyddiad Cabaret 22 Ion 2022 |
| 1307 | Wilko | 4.50 | Ffrâm |
| 1308 | Wilko | 19.00 | Fframiau |
| 1313 | Cyngor Sir Ddinbych | 1.00 | Tâl rhent ar gyfer Lloches Bws Tir Morfa |
| 1314 | Cyngor Sir Ddinbych | 13.50 | Tâl rhent ar gyfer y Gerddi Coffa |
| 1315 | Rhyl BID | 251.64 | BID Anfoneb 01/04/21 - 01/03/22 |
| 1316 | Rhyl BID | 23.36 | BID Anfoneb 01/03/21 - 31/03/21 |
| 1317 | Town Square Spaces Ltd | 96.00 | Lle Digwyddiad yn Costigans 11 Rhag 2021 Digwyddiad Nadolig |
| 1318 | Ambiwlans Sant Ioan Cymru | 90.00 | Gwasanaeth meddygol ar gyfer digwyddiad mis Medi |
| 1319 | Sioned Graham Cameron | 601.42 | Gwasanaeth Cyfieithu |
| 1320 | Sioned Graham Cameron | 43.79 | Gwasanaeth Cyfieithu – Rhodio'r Rhyl |
| 1321 | Y Cyngh D. L. King | 130.65 | Treuliau Maer - Rhag 2021 |
| 1322 | Cyngor Sir Ddinbych | 349.27 | Gosod a thynnu hmaith coeden Nadolig |
| 1323 | HSBC | 100.00 | Arian mân – ychwanegiad |
| | **Cyfanswm taliadau** | **£2,435.56** | |

**Taliadau Brys a Cherdyn:** Roedd tri taliad argyfwng yn ystod y cyfnod - talebau 1301, 1302 a 1303 a gwnaed 4 gan ddefnyddio cerdyn y Cyngor Tref 1305, 1306, 1307 a 1308.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen, a byddai'n cael ei llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog er mwyn galluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.*

## 101. ADRODDIAD RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS

Ymhellach i Gyfarfod Arbennig y Cyngor a gynhaliwyd yn union cyn y cyfarfod hwn, cyhoeddodd y Maer yn ffurfiol y byddai Mrs Jean Frost MBE yn cael ei gwneud yn Rhyddfreiniwr Anrhydeddus y Rhyl am ei 54 o flynyddoedd o waith gwirfoddol gyda'r R.N.L.I, ac y byddai'n ei chyflwyno gydag arwyddlun a thystysgrif yn ei chartref.

## 102. CRIBIN TRAETH ARFAETHEDIG: CYNGOR SIR DDINBYCH

Ymhellach i gofnod rhif 83 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15fed Rhagfyr 2021, adroddodd Clerc y Dfref iddo dderbyn gwybodaeth ychwanegol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) gan Mr Andy Clark mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd gan y Cyngor Tref.

Awgrymodd Clerc y Dref, ar ôl ystyried y mater ymhellach, nad oedd llawer o fudd mewn talu cyfraniad y Cyngor Tref mewn rhandaliadau ac felly dylai'r aelodau ystyried y taliad unwaith ac am byth o £13,000.

Ar ôl peth trafodaeth, rhoddwyd y mater i bleidlais ac fe ***BENDERFYNWYD*** *symud ymlaen gyda'r cyfraniad o £13,000 a'i dalu mewn un taliad llawn.*

**103. PENODI LLYWODRAETHWR YSGOL CYMUNEDOL NEWYDD – CHRIST THE WORD**

Hysbysodd y Maer y cyfarfod o ymddiswyddiad y Cynghorydd Mrs J. Butterfield MBE fel Llywodraethwr Ysgol Cymunedol Ychwanegol y Cyngor Tref a gofynnodd am enwebiadau i benodi rhywun yn ei lle.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd Ms J. McAlpine.*

**104. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – PROSIECT DOL BLODAU GWYLLT 2022**

Adroddodd y Maer iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei ystyried.

Mynegodd yr aelodau deimladau cymysg ar ddolydd blodau gwyllt a theimlent y byddai cyflwyniad gan Gyngor Sir Ddinbych yn ddefnyddiol.

***PENDERFYNWYD*** *gohirio'r eitem nes gellid trefnu cyflwyniad.*

**105. YMGYNHGORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – ENWI STRYDOEDD**

Adroddodd y Maer iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r enwau strydoedd arfaaethedig.*

**106. YMGYNHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – CYNLLJUN GWARCHOD Y GLANNAU CANOL Y RHYL**

Adroddodd y Maer iddo dderbyn yr uchod (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cynllun.*

**107. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**108. POLISI CYARFODYDD HYBRID**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r polisi draffft i'r aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r polisi ac y byddai'n cael ei newid os a phan fo angen unwaith y byddai cyfarfodydd hybrid wedi cychwyn.*

**109. TROSGLWYDDO CANOLFAN GYMUNEDOL TYNEWYDD**

Adroddodd Clerc y Dref bod angen penderfyniad ffurfiol nawr i gwblhau'r trosglwyddiad ac unwaith y byddai cyfreithiwr y Cyngor Tref yn fodlon, byddai'r mater yn cael ei ystyried gan yr Is-bwyllgor Asesu Risg i ddechrau a'i roi gerbron y Cyngor neu Gyfarfod Arbennig y Cyngor, i gwblhau'r trosglwyddiad yn gyflym.

…………

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

**110. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: ………………….

Dyddiad ………………….